



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2021 Rhif 926 (Cy. 211)

2021 No. 926 (W. 211)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

PUBLIC HEALTH, WALES

Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws, Teithio
Rhyngwladol ac Atebolrwydd
Gweithredwyr) (Cymru)
(Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 4)
2021

The Health Protection
(Coronavirus, International Travel
and Operator Liability) (Wales)
(Miscellaneous Amendments) (No.
4) Regulations 2021

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021 (O.S. 2021/48 (Cy. 11)) (y "Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr").

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod a bennir yn unol â'r Rheoliadau hynny. Mae'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o berson wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio. Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Cyfeirir at y gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 fel "gwledydd a thiriogaethau esempt".

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations amend the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/574 (W. 132)) (the "International Travel Regulations") and the Health Protection (Coronavirus, International Travel, Pre-Departure Testing and Operator Liability) (Wales) (Amendment) Regulations 2021 (S.I. 2021/48 (W. 11)) (the "Operator Liability Regulations").

The International Travel Regulations impose requirements on persons entering Wales after having been abroad. They include a requirement for persons arriving in Wales to isolate for a period determined in accordance with those Regulations. The requirements imposed by the International Travel Regulations are subject to exceptions, and certain categories of person are exempt from having to comply. Persons entering Wales after being in one or more of the countries and territories listed in Schedule 3 to the International Travel Regulations are not required to isolate. The countries and territories listed in Schedule 3 are referred to as "exempt countries and territories".

Mae rheoliad 3 yn diwygio rheoliad 2A o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol fel bod yr esemptiadau yn rheoliad 2A bellach yn rhychwantu personau sy'n teithio o Ffrainc Fetropolitanaid.

Mae rheoliad 4 yn diwygio Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn ychwanegu yr Almaen, Awstria, Latfia, Norwy, Rwmania, Slofacia a Slofenia at y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin.

Mae rheoliad 5 yn diwygio Atodlen 3A i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, sy'n cynnwys y rhestr o wledydd a thiriogaethau sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol. Mae personau nad ydynt yn esempt wedi eu gwahardd rhag dod i Gymru pan fônt wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A o fewn 10 niwrnod i gyrraedd, yn unol â rheoliad 12E o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae rheoliad 5 yn ychwanegu Georgia, Mayotte, Mecsico a Réunion at y rhestr yn Atodlen 3A ac yn hepgor Bahrain, yr Emiraethau Arabaidd Unedig, India a Qatar.

Mae rheoliad 6 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 1E i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn ychwanegu Cwpan Curtis at y rhestr o 'digwyddiadau penodedig'. Mae hyn yn hepgor personau perthnasol yn y digwyddiad o'r darpariaethau profi yn rheoliad 6AB o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ac yn lle hynny yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gadw at y gofynion yn rheoliad 6L o'r Rheoliadau hynny.

Mae rheoliad 7 yn diwygio paragraffau 1 a 2 o Atodlen 1C i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn cysoni'r gofynion technegol ar gyfer profion diwrnod 8 â'r gofynion llymach ar gyfer profion diwrnod 2.

Mae'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr yn gosod gofynion ar bersonau sy'n gweithredu gwasanaethau teithwyr rhyngwladol ("gweithredwyr") sy'n cyrraedd Cymru o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin. Yn unol â'r gofynion hynny rhaid i weithredwyr, er enghraifft, sicrhau bod teithwyr sy'n teithio ar y gwasanaethau hynny yn meddu ar hysbysiad o ganlyniad prawf negyddol a'u bod wedi gwneud trefniadau i gymryd profion pellach ar ôl iddynt gyrraedd.

Mae rheoliad 8 yn gwneud diwygiad canlyniadol i reoliad 5C o'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr yng ngoleuni'r diwygiad i reoliad 2A o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn estyn yr esemptiadau yn rheoliad 2A i bersonau sy'n teithio o Ffrainc Fetropolitanaid.

Regulation 3 amends regulation 2A of the International Travel Regulations so that the exemptions in regulation 2A now extend to persons travelling from Metropolitan France.

Regulation 4 amends Schedule 3 to the International Travel Regulations to add Austria, Germany, Latvia, Norway, Romania, Slovakia and Slovenia to the list of exempt countries and territories outside the common travel area.

Regulation 5 amends Schedule 3A to the International Travel Regulations, which contains the list of countries and territories subject to additional measures. Non-exempt persons are prohibited from entering Wales where they have been in a country or territory listed in Schedule 3A within the last 10 days of arrival, pursuant to regulation 12E of the International Travel Regulations. Regulation 5 adds Georgia, Mayotte, Mexico and Réunion to the list in Schedule 3A and removes Bahrain, India, Qatar and the United Arab Emirates.

Regulation 6 of these Regulations amends Schedule 1E to the International Travel Regulations to add the Curtis Cup to the list of 'specified events'. This removes relevant persons at the event from the testing provisions in regulation 6AB of the International Travel Regulations and instead requires them to adhere to the requirements in regulation 6L of those Regulations.

Regulation 7 amends paragraphs 1 and 2 of Schedule 1C to the International Travel Regulations to bring the technical requirements for day 8 tests into line with the more stringent requirements for day 2 tests.

The Operator Liability Regulations impose requirements on persons operating international passenger services ("operators") arriving into Wales from outside the common travel area. In accordance with those requirements operators must, for example, ensure that passengers travelling on such services possess notification of a negative test result and have made arrangements to take further tests following their arrival.

Regulation 8 makes a consequential amendment to regulation 5C of the Operator Liability Regulations in light of the amendment to regulation 2A of the International Travel Regulations to extend the exemptions in regulation 2A to persons travelling from Metropolitan France.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has not been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

2021 Rhif 926 (Cy. 211)

2021 No. 926 (W. 211)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

PUBLIC HEALTH, WALES

Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws, Teithio
Rhyngwladol ac Atebolrwydd
Gweithredwyr) (Cymru)
(Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 4)
2021

The Health Protection
(Coronavirus, International Travel
and Operator Liability) (Wales)
(Miscellaneous Amendments) (No.
4) Regulations 2021

Gwnaed *am 2.15 p.m. ar 6 Awst 2021*

Made *at 2.15 p.m. on 6 August 2021*

Gosodwyd *gerbron* *Senedd*
Cymru *am 5.00 p.m. ar 6 Awst 2021*

Laid *before* *Senedd*
Cymru *at 5.00 p.m. on 6 August 2021*

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2) a (3)

Coming into force in accordance with
regulation 1(2) and (3)

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on them by sections 45B and 45P(2) of the Public Health (Control of Disease) Act 1984(1), make the following Regulations.

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 4) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn, ac eithrio rheoliad 7, i rym am 4.00 a.m. ar 8 Awst 2021.

(3) Daw rheoliad 7 i rym ar 23 Awst 2021.

Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Health Protection (Coronavirus, International Travel and Operator Liability) (Wales) (Miscellaneous Amendments) (No. 4) Regulations 2021.

(2) Except for regulation 7, these Regulations come into force at 4.00 a.m. on 8 August 2021.

(3) Regulation 7 comes into force on 23 August 2021.

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(1) 1984 c. 22. Part 2A was inserted by section 129 of the Health and Social Care Act 2008 (c. 14). The function of making regulations under Part 2A is conferred on "the appropriate Minister". Under section 45T(6) of the 1984 Act the appropriate Minister as respects Wales, is the Welsh Ministers.

Diwygiadau i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020

2. Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(1) wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 7.

Diwygiad i reoliad 2A

3. Yn rheoliad 2A(2), hepgorer “neu Ffrainc Fetropolitanaid”.

Diwygiadau i Atodlen 3

4. Yn Atodlen 3 (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), yn Rhan 1, yn y lleoedd priodol mewnosoder—

“Yr Almaen”
“Awstria”
“Latfia”
“Norwy”
“Rwmania”
“Slofacia”
“Slofenia”.

Diwygiadau i Atodlen 3A

5. Yn Atodlen 3A (gwledydd a thiriogaethau sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol)—

(a) yn y lleoedd priodol mewnosoder—
“Georgia”
“Mayotte”
“Meccico”
“Réunion”;

Amendments to the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Regulations 2020

2. The Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Regulations 2020(1) are amended in accordance with regulations 3 to 7.

Amendment to regulation 2A

3. In regulation 2A(2), omit “or Metropolitan France”.

Amendments to Schedule 3

4. In Schedule 3 (exempt countries and territories outside the common travel area), in Part 1, at the appropriate places insert—

“Austria”
“Germany”
“Latvia”
“Norway”
“Romania”
“Slovakia”
“Slovenia”.

Amendments to Schedule 3A

5. In Schedule 3A (countries and territories subject to additional measures)—

(a) at the appropriate places insert—
“Georgia”
“Mayotte”
“Mexico”
“Réunion”;

(1) O.S. 2020/574 (Cy. 132), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/942, O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216), O.S. 2020/981 (Cy. 220), O.S. 2020/1015 (Cy. 226), O.S. 2020/1042 (Cy. 231), O.S. 2020/1080 (Cy. 243), O.S. 2020/1098 (Cy. 249), O.S. 2020/1133 (Cy. 258), O.S. 2020/1165 (Cy. 263), O.S. 2020/1191 (Cy. 269), O.S. 2020/1223 (Cy. 277), O.S. 2020/1232 (Cy. 278), O.S. 2020/1237 (Cy. 279), O.S. 2020/1288 (Cy. 286), O.S. 2020/1329 (Cy. 295), O.S. 2020/1362 (Cy. 301), O.S. 2020/1477 (Cy. 316), O.S. 2020/1521 (Cy. 325), O.S. 2020/1602 (Cy. 332), O.S. 2020/1645 (Cy. 345), O.S. 2021/20 (Cy. 7), O.S. 2021/24 (Cy. 8), O.S. 2021/46 (Cy. 10), O.S. 2021/48 (Cy. 11), O.S. 2021/50 (Cy. 12), O.S. 2021/66 (Cy. 15), O.S. 2021/72 (Cy. 18), O.S. 2021/95 (Cy. 26), O.S. 2021/154 (Cy. 38), O.S. 2021/305 (Cy. 78), O.S. 2021/361 (Cy. 110), O.S. 2021/454 (Cy. 144), O.S. 2021/500 (Cy. 149), O.S. 2021/568 (Cy. 156), O.S. 2021/584 (Cy. 161), O.S. 2021/646 (Cy. 166), O.S. 2021/669 (Cy. 170), O.S. 2021/765 (Cy. 187), O.S. 2021/826 (Cy. 193), O.S. 2021/863 (Cy. 202), O.S. 2021/867 (Cy. 203) ac O.S. 2021/915 (Cy. 208).

(1) S.I. 2020/574 (W. 132), amended by S.I. 2020/595 (W. 136), S.I. 2020/714 (W. 160), S.I. 2020/726 (W. 163), S.I. 2020/804 (W. 177), S.I. 2020/817 (W. 179), S.I. 2020/840 (W. 185), S.I. 2020/868 (W. 190), S.I. 2020/886 (W. 196), S.I. 2020/917 (W. 205), S.I. 2020/942, S.I. 2020/944 (W. 210), S.I. 2020/962 (W. 216), S.I. 2020/981 (W. 220), S.I. 2020/1015 (W. 226), S.I. 2020/1042 (W. 231), S.I. 2020/1080 (W. 243), S.I. 2020/1098 (W. 249), S.I. 2020/1133 (W. 258), S.I. 2020/1165 (W. 263), S.I. 2020/1191 (W. 269), S.I. 2020/1223 (W. 277), S.I. 2020/1232 (W. 278), S.I. 2020/1237 (W. 279), S.I. 2020/1288 (W. 286), S.I. 2020/1329 (W. 295), S.I. 2020/1362 (W. 301), S.I. 2020/1477 (W. 316), S.I. 2020/1521 (W. 325), S.I. 2020/1602 (W. 332), S.I. 2020/1645 (W. 345), S.I. 2021/20 (W. 7), S.I. 2021/24 (W. 8), S.I. 2021/46 (W. 10), S.I. 2021/48 (W. 11), S.I. 2021/50 (W. 12), S.I. 2021/66 (W. 15), S.I. 2021/72 (W. 18), S.I. 2021/95 (W. 26), S.I. 2021/154 (W. 38), S.I. 2021/305 (W. 78), S.I. 2021/361 (W. 110), S.I. 2021/454 (W. 144), S.I. 2021/500 (W. 149), S.I. 2021/568 (W. 156), S.I. 2021/584 (W. 161), S.I. 2021/646 (W. 166), S.I. 2021/669 (W. 170), S.I. 2021/765 (W. 187), S.I. 2021/826 (W. 193), S.I. 2021/863 (W. 202), S.I. 2021/867 (W. 203) and S.I. 2021/915 (W. 208).

- (b) hepgorer—
 - “Bahrain”
 - “Yr Emiraethau Arabaidd Unedig”
 - “India”
 - “Qatar”.

- (b) omit—
 - “Bahrain”
 - “India”
 - “Qatar”
 - “United Arab Emirates”.

Diwygiad i Atodlen 1E

6. Yn Atodlen 1E (digwyddiadau profi penodedig), yn y lle priodol mewnosoder “R & A – Cwpan Curtis”.

Amendment to Schedule 1E

6. In Schedule 1E (specified testing events), at the appropriate place insert “R & A – The Curtis Cup”.

Diwygiadau i Atodlen 1C

7.—(1) Mae Atodlen 1C (profi mandadol ar ôl cyrraedd Cymru) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-baragraff (b)(ii) o baragraff 1 (gofynion prawf diwrnod 2)—

- (a) ar ôl “sy’n fwy na 99%” mewnosoder “neu’n gyfwerth â hynny”;
- (b) yn lle “a chyfwng” rhodder “neu gyfwng”.

(3) Yn lle paragraff 2 (gofynion prawf diwrnod 8) rhodder—

Amendments to Schedule 1C

7.—(1) Schedule 1C (mandatory testing after arrival in Wales) is amended as follows.

(2) In sub-paragraph (b)(ii) of paragraph 1 (day 2 test requirements)—

- (a) after “greater than” insert “or equal to”;
- (b) for “with” substitute “or”.

(3) For paragraph 2 (day 8 test requirements) substitute—

“Gofynion prawf diwrnod 8

2. Mae prawf diwrnod 8 yn cydymffurfio â’r paragraff hwn—

- (a) pan fo’n brawf lled-feintiol ar gyfer canfod y coronafeirws—
 - (i) sy’n targedu o leiaf ddau enyn SARS-CoV-2 y gellir gwahaniaethu rhyngddynt ac eithrio’r genyn S a rheolaethau cyfeirio perfformiad,
 - (ii) sy’n cynnwys rheolwaith sicrwydd in silico yn erbyn pob amrywiolyn sy’n destun pryder, a
 - (iii) sy’n cynhyrchu toddiant prawf sy’n darparu asid niwclëig a echdynnwyd sy’n addas ar gyfer dilyniannu genom cyfan gan ddefnyddio dull penodedig,
- (b) pan fo gweithgynhyrchydd unrhyw ddyfais a ddefnyddir at ddibenion y prawf yn datgan—
 - (i) bod y ddyfais yn defnyddio dull sefydledig o ganfod moleciwlau,
 - (ii) bod gan y ddyfais benodolrwydd sy’n fwy na 97% neu’n gyfwerth â hynny (neu gyfwng hyder dwyochrog o 95% sydd uwchben 95% yn llwyr),

“Day 8 test requirements

2. A day 8 test complies with this sub-paragraph where—

- (a) it is a semi-quantitative test for the detection of coronavirus which—
 - (i) targets a minimum of two distinguishable SARS-CoV-2 genes other than the S gene and performance reference controls,
 - (ii) includes routine in silico assurance against every variant of concern, and
 - (iii) produces a test solution that provides extracted nucleic acid that is suitable for whole genome sequencing using a specified method,
- (b) the manufacturer of any device used for the purposes of the test states that the device—
 - (i) uses an established molecular detection method,
 - (ii) has a specificity greater than or equal to 97% (or a 95% two-sided confidence interval entirely above 95%),

- | | |
|--|---|
| <ul style="list-style-type: none"> (iii) bod gan y ddyfais sensitifrwydd sy'n fwy na 95% neu'n gyfwerth â hynny (neu gyfwng hyder dwyochrog o 95% sydd uwchben 90% yn llwyr), (iv) bod gan y ddyfais derfyn canfod o lai na 1000 copi SARS-CoV-2 y mililitr, neu gyfwerth â hynny, a (v) bod y ddyfais yn addas ar gyfer canfod pob amrywiolyn sy'n destun pryder, ac <p>(c) pan fo unrhyw ddyfais a ddefnyddir at ddibenion y prawf—</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) yn gallu cael ei defnyddio yn unol â Rhan 4 o Reoliadau Dyfeisiau Meddygol 2002(1), ac eithrio yn rhinwedd rheoliad 39(2) o'r Rheoliadau hynny yn unig, a (ii) wedi ei dilysu ddim mwy na 18 mis cyn gweinyddu'r prawf neu ei ddarparu i P.” | <ul style="list-style-type: none"> (iii) has a sensitivity greater than or equal to 95% (or a 95% two-sided confidence interval entirely above 90%), (iv) has a limit of detection of less than or equal to 1000 SARS-CoV-2 copies per millilitre, and (v) is suitable for identifying every variant of concern, and <p>(c) any device used for the purposes of the test—</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) can be put into service in accordance with Part 4 of the Medical Devices Regulations 2002(1), other than solely by virtue of regulation 39(2) of those Regulations, and (ii) has been validated no more than 18 months before the test is administered or provided to P.” |
|--|---|

Diwygiad i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021

8. Yn rheoliad 5C o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021(2), hepgorer paragraff (4).

Amendment to the Health Protection (Coronavirus, International Travel, Pre-Departure Testing and Operator Liability) (Wales) (Amendment) Regulations 2021

8. In regulation 5C of the Health Protection (Coronavirus, International Travel, Pre-Departure Testing and Operator Liability) (Wales) (Amendment) Regulations 2021(2), omit paragraph (4).

Eluned Morgan

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru
Am 2.15 p.m. ar 6 Awst 2021

Minister for Health and Social Services, one of the
Welsh Ministers
At 2.15 p.m. on 6 August 2021

© Hawlfraint y Goron 2021

© Crown copyright 2021

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(1) O.S. 2002/618.
(2) O.S. 2021/48 (Cy. 11), a ddiwygiwyd gan O.S. 2021/72 (Cy. 18), O.S. 2021/171 (Cy. 39), O.S. 2021/305 (Cy. 78), O.S. 2021/584 (Cy. 161), O.S. 2021/646 (Cy. 166), O.S. 2021/826 (Cy. 193) ac O.S. 2021/915 (Cy. 208).

(1) S.I. 2002/618.
(2) S.I. 2021/48 (W. 11), amended by S.I. 2021/72 (W. 18), S.I. 2021/171 (W. 39), S.I. 2021/305 (W. 78), S.I. 2021/584 (W. 161), S.I. 2021/646 (W. 166), S.I. 2021/826 (W. 193) and S.I. 2021/915 (W. 208).

£6.90

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2021/926>

ISBN 978-0-348-39102-2



9 780348 391022